

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

CYNRADD



Mae Mis Dathlu Addysg Grefyddol ym mis Mawrth 2011 yn gyfle delfryddol i wneud addysg grefyddol yn ffocws creadigol i'r cwricwlwm.

Gall y plant archwilio meysydd megis amrywiaeth a pherthyn, credoau, dysgeidiaethau a ffynonellau neu werthoedd ac ymrwymadau. Gallant ddatblygu sgiliau - er enghraifft, ymholi, dehongli, empathi neu feddwl yn feirniadol. Hefyd, mae'r syniadau hyn yn gyfle ar gyfer datblygiad ysbrydol, hyrwyddo cydlyniant cymunedol, a gwella parch a dealltwriaeth o'u hunain ac eraill.

Cyhoeddusrwydd

Yn ystod mis Dathlu Addysg Grefyddol, cofiwch gynnwys eitemau Addysg Grefyddol yn newyddlen yr ysgol neu rhowch eitemau ar eich gwefan neu'ch blog. Anogwch y disgyblion i gyfrannu. Yn ystod yr wythnos olaf, rhowch arddangosfa yn y neuadd neu dderbynfa'r ysgol ar gyfer rhieni / gofalwyr ac ymwelwyr. Cynhaliwch "agoriad" i'r arddangosfa gan wahodd gwahoddedigion a chael y plant i siarad am waith neu brosiectau Addysg Grefyddol y maent wedi bod yn eu gwneud. Os ydych yn cynnal digwyddiad arbennig, rhowch wybod i'r cyfryngau, y wasg, radio neu deledu lleol a gwahoddwch nhw i wneud eitem am y digwyddiad. Mae'r rhain yn ffyrdd ardderchog o godi proffil a statws Addysg Grefyddol - ymysg disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned leol.



Addysg Grefyddol

- Dathlwch wyliau'r uned ffydd yr ydych yn ei hastudio. Mae nifer o wyliau crefyddol yn cael eu cynnal yn ystod mis Mawrth 2011 ac efallai y bydd un neu ddwy yn cyd-fynd â'r Addysg Grefyddol sy'n cael ei hastudio yn eich dosbarth. Ymchwiliwch i symbolaeth bwydydd a ddefnyddir mewn dathliadau a gwnewch seigiau syml yn y dosbarth ar gyfer parti. Ymchwiliwch i ddefodau neu gerddoriaeth symbolaidd.



- Perfformiwch gyflwyniadau yn y dosbarth ac archwiliwch faterion sy'n ymwneud â'r ffydd yr ydych yn ymchwilio iddi (yn arbennig os oes diwrnod sanctaidd, amser myfyrio neu ŵyl yn cael ei dathlu / nodi o fewn y ffydd).

Dathliadau ym mis Mawrth 2011:

- ▶ Bahá'i: Ymryd am bedwar diwrnod ar bymtheg, Naw-Rúz
 - ▶ Cristnogaeth: Dydd Gŵyl Dewi Sant Padrig, Dydd Mawrth Ynyd, Dydd Mercher Lludw, Grawys, Gŵyl Fair
 - ▶ Hindwiaeth: Mahashivratri
 - ▶ Iddewiaeth: Pasg Iddewig, Purim
 - ▶ Siciaeth: Hola Mohalla
 - ▶ Zoroastriaeth: Jamshedi Noruz, Kordad Sal
- Gwahoddwch rhieni / gofalwyr neu aelodau o'r gymuned ffydd leol i rannu eu profiadau personol o'r ŵyl / amser myfyrio gyda chi.

- Yn ystod y mis, ymchwiliwch i wahanol fathau o ffydd sy'n ymprydio a gwledda a nodwch gwestiynau pwysig y gallech eu holi.
- Crëwch ardal lle gall blant archwilio dillad seremonïol / arbennig a gafael mewn arteffactau â pharch a sensitifrwydd neu lle gellir defnyddio ystod o lyfrau neu adnoddau ar gyfer ymchwiliad unigol neu grŵp.
- Anogwch y plant i fyfyrir er enghraifft, ynghylch sut y gallai unigolyn ffydd ddefnyddio arteffact i fynegi cred grefyddol. Gallai'r disgyblion ysgrifennu cerdd neu chwarae rôl neu berfformio darn o ddrama i ddangos eu dealltwriaeth a mynegi eu barn.
- Adroddwch storiâu cysegredig o'r uned ffydd yr ydych yn ei haddysgu. Gwahoddwch rieni / gofalwyr neu eraill o'r gymuned ffydd i rannu stori grefyddol ac esboniwch ei hystyr iddyn nhw. Ewch i ymweld â man addoli a gwrandewch ar y stori yn eu lleoliad ffydd. Mae sawl safle ar y rhyngwyl yn cynnwys enghreifftiau o storiâu cysegredig sydd wedi'u hysgrifennu mewn iaith sy'n briodol i ddisgyblion.



arddangos y canlyniad hwn a'i gyflwyno i gyfoedion, i'w asesu neu ar gyfer noson rieni.

- Dylunio tudalen ar gyfer gwefan yr ysgol:
 - * hysbysebu'r mis Dathlu Addysg Grefyddol gan amlinellu digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol
 - * arddangos gweithgaredd neu ymweliad Addysg Grefyddol
- Beth am gael blog i'r dosbarth? Gellid ei ddiweddarau bob dydd gyda lluniau ac uchafbwyntiau'r dydd. Mae hon yn ffordd wych o gynnwys y plant ac o gadw cofnod o ddigwyddiadau'r mis. Mae plant wrth eu boddau yn gweld cerddi, lluniau, dyddiaduron o ymweliadau, podlediadau ac ati yn cael eu harddangos – yn arbennig i gynulleidfa ehangach. Mae hyn hefyd yn darparu cyfleoedd gwybwrch ar gyfer e.e. gweithio ar y cyd, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, celf, cerddoriaeth, siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu, mae'n rhoi cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddangos a mynegi dealltwriaeth grefyddol – eu hunain ac eraill.
- Os oes gan yr ysgol sgrin blasma neu deledu yn ei hardal groesawu, gofalwch fod digwyddiadau a gweithgareddau Addysg Grefyddol yn cael eu harddangos yn ystod mis Dathlu Addysg Grefyddol.

Addysg Grefyddol a TGCh

- Trwy ddefnyddio TGCh yn greadigol, gallwch gael effaith ar ansawdd canlyniadau Addysg Grefyddol. Er y gall y plant ddysgu technegau newydd trwy'r broses o ddefnyddio TGCh, mae'n bwysig cofio mai'r peth pwysig yw sicrhau canlyniadau Addysg Grefyddol o ansawdd uchel.
- Gall y plant ymchwilio i wahanol feysydd o uned ffydd e.e. dathliadau, symbolaeth, bwyd ac ati. Gellid coladu'r wybodaeth a'i throï'n gylchgrawn, papur newydd neu gyflwyniad digidol i'r dosbarth. Gellid



Addysg Grefyddol a Chelf/ DaTh

- Cynhaliwch gystadleuaeth i ddylunio symbol i ddathlu Mis Addysg Grefyddol 2011. Byddai hon yn ffordd dda o alluogi ac annog plant i feddwl am werthoedd, credoau a chydlyniant cymunedol.
- Gwahoddwch artist i mewn i weithio gyda grŵp o blant i wireddu'r dyluniad buddugol a'i wneud yn etifeddiaeth barhaol i'r ysgol.
- Crëwch fodelau o fannau addoli yr ymwelwyd â nhw e.e. defnyddio bocsys wedi'u hailgylchu, darnau adeiladu, clai neu bapier mache. Dyluniwch ganolfan rhyngffydd newydd. Pe bai hwn yn adeilad a ddefnyddir gan wahanol grwpiau crefyddol, pa fathau o bethau y byddai angen i ni feddwl amdanynt?
- Gwnewch fontage o ddelweddau a dynnwyd yn ystod ymweliadau gan ychwanegu capsynau yn mynegi myfyrdodau, teimladau neu fewnwelediad a gafwyd yn ystod yr ymweliad. Gwahoddwch y rhieni / gofawyr neu aelodau o'r gymuned ffydd i weld y montage.
- Defnyddiwch ddeunyddiau modelu i greu neu gerflunio arteffactau a welwyd yn y man addoli yn ystod eich ymweliad. (Byddwch yn ymwybodol ac yn sensitif – efallai nad yw'r gweithgaredd hwn yn briodol i blant o rai mathau o ffydd).
- Defnyddiwch gardbord a haenen lynu neu asetadau lliw i ddylunio a chreu ffenestr liw ar thema grefyddol -e.e. symbol, stori, cyfiawnder, da a drwg, cwestiwn dyrys.
- Crëwch fyrddau arddangos ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu gyntedd yr ysgol sy'n canolbwyntio ar thema grefyddol neu'r



ffydd yr ydych yn ei hastudio yn ystod y mis dathlu Addysg Grefyddol. Dylech gynnwys y plant yn y gwaith o ddylunio a chreu'r byrddau.

- Defnyddiwch dywod lliw i greu mandalas. Yn dibynnu ar y grefydd sy'n cael ei hastudio (Hindwiaeth neu Fwdhaeth) gellid gwneud y mandala yn fwy parhaol trwy ddefnyddio glud neu gallech ei adael yn amharhaol fel bo modd cael gwared arno.

Addysg Grefyddol a chysylltiadau eraill â'r cwricwlwm

Llythrennedd:

- ysgrifennwch lythyrau i arweinydd y man addoli yr aethoch i'w weld sy'n mynegi diolch, ond sydd hefyd yn mynegi meddyliau neu farn neu'n gofyn cwestiynau dyrys am yr hyn y maent wedi'i weld neu ei brofi.
- crëwch gylchgrawn crefyddol am ymweliad neu thema e.e. masnach deg, gŵyl grefyddol, "Beth ar y ddaear ydym ni'n ei wneud?" a allai archwilio safbwyntiau crefyddol a bydol am y modd y dylem ofalu am y blaned gydag erthyglau, barddoniaeth, lluniau, ffotograffau, cyfweiliadau neu feddyliau am y dydd.



Mathemateg:

- rth ymweld â man addoli, edrychwch ar siâp, cymesuredd a phatrwm. Mae'n bosibl hefyd amcangyfrif, cymharu a mesur. Mae unedau lle, siâp a phatrwm yn berffaith ar gyfer y ffocws hwn e.e. creu collage o fan addoli yn defnyddio siapiau, adeiladu atgynhyrchiad o'r adeilad yn defnyddio siapiau 3D mewn ffyrdd gwahanol.

Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol:

- enghreifftiau o werthoedd sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol yw parch, hunan ymwybyddiaeth ac empathi. O fewn awyrgylch diogel a chynorthwyol, mae amser cylch yn gyfle ardderchog i ymarfer y sgiliau sy'n tanategu'r gwerthoedd hyn ac mae'n gyfle i blant fynegi eu barn neu gredoau.

Dynieithau:

- defnyddiwch raglen ar-lein e.e. mapiau Google neu tynnwch lun map o'r gymuned leol yn dangos lleoliadau manau addoli.
- ymchwiliwch i ffigur crefyddol arwyddocaol lleol, cenedlaethol neu fyd-eang a'r effaith a gafodd yr unigolyn hwnnw.



Addysg Grefyddol a chymuned leol yr ysgol

- Trefnwch ymweliad â'r manau addoli lleol sy'n ymwneud â'r uned yr ydych yn ei hastudio. Gofalwch fod plant ac oedolion wedi gwisgo'n briodol ac yn deall y protocolau a'r ymddygiad disgwylidig. Gwahoddwch rieni / gofalwyr i fod yn rhan o'r ymweliad. Er mwyn paratoi, dylai'r plant ystyried cwestiynau "mawr" i'w gofyn. Gwahoddwch yr imam, rabi, ficer neu arweinydd crefyddol lleol arall i'r ysgol i gael ei gyfweld gan y plant.
- Gwnewch gysylltiadau ag ysgolion mewn ardaloedd eraill, yn arbennig rhai lle mae'r cydbwysedd ffydd yn wahanol i gydbwysedd ffydd eich ardal leol. Os yn bosibl, trefnwch ymweliadau, crëwch fideo-gynhadledd rhwng dwy ysgol neu byddwch yn gyfeillion trwy lythyr "techno". Gwahoddwch yr un grŵp blwyddyn o ysgol arall i rannu'r gwaith y maent wedi'i

gynhyrchu yn ystod mis Addysg Grefyddol neu gweithiwch ar brosiect ar y cyd.

- Crëwch lwybr crefyddol yn eich ardal. Sut mae crefydd wedi llunio'r ardal leol? Chwiliwch am dystiolaeth, er enghraifft mewn enwau strydoedd neu adeiladau, siopau ac agweddau eraill ar fywyd cymunedol. Tynnwch luniau digidol, ysgrifennwch nodiadau a thynnwch lun o'r llwybr a'i lwytho ar fap Google fel y gwelir yn yr [enghraifft](#). Edrychwch ar y wefan Llwybrau Addysg Grefyddol am help a chyngor ar greu llwybrau. Gweler www.retrails.org.uk
- Fel mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r cwricwlwm creadigol yn galluogi ysgolion i fod yn arloesol a llawn dychymyg. Gallai hyn arwain at ddiwrnodau crefyddol a diwylliannol lle mae dillad arbennig neu draddodiadol yn cael eu gwisgo. Efallai y gallech gynnal digwyddiad aml-ddiwylliant 'cwrdd a bwyta' lle gellid cynnwys rhieni / gofalwyr a'r gymuned ehangach, nid yn unig i fynychu'r digwyddiad, ond i gyfrannu, er enghraifft ryseitiai neu storïau traddodiadol, symbolaidd neu grefyddol sy'n gysylltiedig â'r bwydydd.

